Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Ebost/Email:
ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn/Phone: 0300 065 3000

Tîm Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol
Defra

23 Ebrill 2015

Annwyl Syr/Fadam

**Ymateb CNC i'r ymgynghoriad ynghylch Rhaglen o Fesurau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol**

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch rhaglen o fesurau y DU, Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn rhan weithgar o'r broses o ddatblygu'r Rhaglen o Fesurau, gan ddarparu cyngor a mewnbwn manwl i Lywodraeth Cymru a Defra. Felly, nid ydym yn bwriadu gwneud sylwadau manwl ar yr ymgynghoriad. Yn hytrach, ysgrifennaf i gynnig cymorth cyffredinol i'r Rhaglen o Fesurau, ac i gadarnhau rôl Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddarparu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Yn ogystal, rwyf wedi darparu ychydig o bwyntiau o eglurhad yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl bwysig i'w chwarae i gynghori ar y broses o weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn ei gyfanrwydd, ac i gyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu elfennau o'r Strategaeth Fonitro a'r Rhaglen o Fesurau. Byddwn yn parhau i gynorthwyo i ddarparu'r Gyfarwyddeb ar hyd a lled y DU trwy drafodaethau yng Ngrwpiau Llywio Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU, a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol y DU.

Rydym yn cydnabod bod Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn Gyfarwyddeb fframwaith ac yn broses ailadroddol, a megis dechrau yr ydym ar y broses o adnabod yr hyn y mae ei angen er mwyn cyflawni Statws Amgylcheddol Da yn ein moroedd. Rydym yn disgwyl i'r rhaglen o fesurau ddatblygu ymhellach yn y dyfodol, o ganlyniad i fynd trwy'r cylch cyntaf hwn o fonitro ac adolygu sydd ar y gweill. Rydym yn cytuno â'r safbwynt bod angen i ni, yn y rhan fwyaf o achosion, ddeall cyfraniad mesurau presennol ac arfaethedig tuag at gyflawni Statws Amgylcheddol Da cyn ystyried datblygu unrhyw fesurau parhaol newydd.

Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i'w rôl o weithredu'r Gyfarwyddeb, rydym hefyd yn ymwybodol y gall pwysau parhaus o ran adnoddau effeithio ar ein gallu i weithredu ar fesurau a gofynion monitro. Byddwn yn parhau i adolygu ein gallu i ateb ein gofynion ac yn mynd ati i dynnu sylw'r llywodraeth at unrhyw risgiau o ran ateb ein gofynion.

Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn darparu cyfle pwysig i ddeall yn well y pwysau ar ein hamgylchedd morol ehangach, ac i'w reoli'n gynaliadwy. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio mewn partneriaeth ar draws y DU i sicrhau y caiff y cyfleoedd hyn, dros amser, eu gwireddu.

Yr eiddoch yn gywir

Tŷ Cambria • 29 Heol Casnewydd • Caerdydd • CF24 0TP
Cambria House • 29 Newport Road • Cardiff • CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Ceri Davies
Cyfarwyddwr, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

**Atodiad 1: Mân sylwadau a phwyntiau o eglurhad**

**Mesurau Generig**

Cynllunio morol, paragraff 45: Dylai'r frawddeg nodi – Yn Lloegr a Chymru, penderfynir ar geisiadau am brosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd, gan gynnwys porthladdoedd mwy a phrosiectau ynni adnewyddadwy alltraeth, yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol, yn amodol ar eithriadau penodol, a chan ystyried Datganiad Polisi Morol y DU.

Cynllunio morol, paragraff 46: Mae anghysondeb yma; yn y ddogfen, nodir bod cynlluniau morol yn berthnasol i'r gwaith o ddarparu D1, D6 a D7, ond gall cynlluniau morol gynorthwyo i gyflawni/gynnal Statws Amgylcheddol Da ar gyfer pob disgrifydd. Byddant yn dwyn ynghyd, yn egluro ac yn cyfeirio fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddio perthnasol sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio'r amgylchedd morol, fel sy'n cael ei nodi yn Rhaglen o Fesurau'r DU. Felly, bydd cynllunio morol yn fesur perthnasol i fodloni targedau ar gyfer holl Ddisgrifyddion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Paragraff 47: Mae defnyddio'r term 'mesurau' yn ddryslyd yng nghyd-destun terminoleg Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Awgrymir newid hyn fel a ganlyn: 'Mae'r tair proses asesu...'

**Disgrifyddion 1 a 4 Pysgod**

O dan D1, ni cheir cyfeiriad at Ddull Diwygiedig Defra/y Sefydliad Rheoli Morol/Natural England/Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau o ran asesu gweithgarwch pysgodfeydd o dan Erthygl 6 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae hyn yn berthnasol i D1 gan ei fod yn ystyried effeithiau gweithgarwch pysgota yn erbyn nodweddion (cynefinoedd) sy'n cefnogi poblogaethau iach o bysgod. Cyfeirir rywfaint at y rhaglen waith hon o dan "Mesurau Rheoli Pysgodfeydd ar gyfer Ardaloedd Gwarchodedig Morol" ar dudalen 44, ond byddai modd ei nodi'n fwy clir fel mesur.

Y testun yn adran 6 D1 Pysgod (t. 44), adran 6 D3 Pysgod (t. 114) ac adran 6 D3 Pysgod Cregyn (t. 125): er cysondeb, gallai pob adran nodi 'bod mesurau sy'n sicrhau stociau iach o bysgod (ystod oedran, poblogaeth etc.) yn cyfrannu at ddatblygu rhwydwaith cydlynol o Ardaloedd Gwarchodedig Morol'.

**Disgrifyddion 1 a 6 Cynefinoedd dyfnfor**

Adran 7: Nid yw'r offer asesu ar gyfer llawer o'r dangosyddion hyn wedi'u datblygu'n llawn nac ychwaith wedi'u rhoi ar waith eto. Mae'r rhaglen o fesurau'n cydnabod hyn ar gyfer rhai dangosyddion (megis yn y prif gynefinoedd gwaddodol lle bydd dirprwy cysylltiedig â gwasgedd yn cael ei ddefnyddio) ond mae'n ymddangos ei bod yn cymryd bod eraill yn barod i'w rhoi ar waith e.e. cynefinoedd creigiog a riff biogenig. Nid yw hyn yn wir, a daeth trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf is-grŵp dyfnfor HBDSEG i'r casgliad ei bod yn debygol iawn na fydd y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn weithredol erbyn cylch adrodd 2018. Mae angen i hyn fod yn fwy clir.

Adran 7: Cyfeirir at y ffaith bod targedau o ran y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr eisoes yn bodoli ar gyfer llawer o'r cynefinoedd hyn. Mae angen rhagor o ofal yn y ffordd y cyflwynir hyn o ran yr hyn sydd i'w gyflawni erbyn 2020, oherwydd nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto o ran sut i asesu'r dangosyddion hyn yn benodol ar gyfer Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, nac o ran sut i ehangu mesurau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn is-ranbarthau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mewn rhai achosion, mae angen gwneud gwaith ymchwil a datblygu o hyd cyn bod modd rhoi'r targedau ar waith, ac mae'r protocolau monitro ar gyfer y rheini sy'n cael eu datblygu eto i'w cytuno arnynt.

Adran 7: Mae rhywfaint o ddryswch ynghylch defnyddio terminoleg mewn mannau. Er enghraifft, cyfeirir at 'arbennig' a 'rhestredig', a cheir awgrym hanner ffordd i lawr tudalen 81 eu bod yn golygu'r un peth, er bod y targedau'n cyfeirio at y rhain fel pethau gwahanol. Byddai'n help egluro'r defnydd o'r termau hyn.

Nid yw'n glir sut y byddai Maen Prawf 1.5 Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn gweithio'n ymarferol? Mae adnodd cyfyngedig o greigiau a gwaddodion, felly mae'n anodd gweld sut y gallai'r naill gynefin neu'r llall fod yn ddigon sefydlog i *gynyddu* heb, er enghraifft, atal unrhyw gloddio pellach am agregau yn y dyfodol a all fod yn afrealistig.

**Disgrifydd 7, Amodau hydrograffeg**

Adran 3:  Mae'r datganiad bod yn rhaid i "brosiectau sydd fwyaf tebygol o effeithio ar amodau hydrograffeg (e.e. .. Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd) ...ystyried cynllun morol" rywfaint yn gamarweiniol gan fod yn rhaid i bob penderfyniad trwyddedu ystyried y cynllun morol, nid Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd yn unig.

Adran 4, y Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol: Disgwylir i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru gael ei gwblhau yn 2016.

Adran 8: Nid yw Asesiadau Amgylcheddol Rhanbarthol Agregau yn berthnasol i Gymru; felly, byddai'n ddefnyddiol egluro pa rannau o'r DU y mae'r rhain yn berthnasol iddynt.

**Disgrifydd 11 Sŵn tanddwr**

Adran, ail brif baragraff: Ni thrwyddedir archwilio seismig ym mhob sefyllfa (e.e. dyfroedd glannau Cymru); dylid felly un ai egluro hyn neu ei ddileu.

~ Diwedd ~